

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap

Dyddiad yr ymweliad 30 Medi 2010

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Ffordd Fan
CAERFFILI
CF83 3ED

Ffôn: 029 2092 8850
Ffacs: 029 2092 8877

www.hiw.org.uk

Cynnwys

	Rhif y Dudalen
1. Cyflwyniad	1
2. Canfyddiadau: Cryfderau, Meysydd i'w Gwella Ymhellach a'r Camau y mae angen eu cymryd	3
Amgylchedd Cyffredinol Ysbyty Treforys	3
Yr Uned Arennol	3
Yr Amgylchedd	3
Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog	6
Cyfarpar a Storfeydd	7
Gwybodaeth ar Arferion Gwaith y Staff	7
Ward F, Ailsefydlu ar ôl Strôc	8
Yr Amgylchedd	8
Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog	10
Cyfarpar a Storfeydd	11
Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff	11
Ward H, Llawdriniaeth Gyffredinol	12

Yr Amgylchedd	12
Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog	14
Cyfarpar a Storfeydd	15
Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff	15
Ward S, Yr Uned Derbyniadau Meddygol	16
Cegin y Ward	16

Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mai 2006, mewn ymateb i bryderon a godwyd gan gleifion a'r cyhoedd ledled Cymru, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ei bwriad i gynnal archwiliadau dirybudd, ar hap, o lanweithdra sefydliadau gofal iechyd ledled Cymru. Cynhelir rhaglen o ymweliadau dirybudd bob blwyddyn.

1.2 Ystyrir gwybodaeth o sawl gwahanol ffynhonnell sy'n berthnasol i'r agenda hon, a ddefnyddir i bennu cyfeiriad y rhaglen archwiliadau ar hap. Rydym yn parhau i adolygu'r rhaglen yn gyson gan ystyried unrhyw wybodaeth newydd a ddaw i'n sylw.

1.3 Fel rhan o'n Harchwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap, rydym yn cynnal trafodaethau â'r staff clinigol ac yn arsylwi manau clinigol yn uniongyrchol. Mae'r rhestr wirio a ddefnyddir i lywio'r archwiliadau yn seiliedig ar y pecyn archwilio Rheoli Haint a ddatblygwyd gan y Gymdeithas Atal Heintiau (IPS).

1.4 Mae mwy o wybodaeth am AGIC, ei hymweliadau ar hap a'r pecyn archwilio a ddefnyddir i'w gweld yn www.hiw.org.uk.

Ymweliad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

1.5 Ar 30 Medi 2010, ymwelodd AGIC ag Ysbyty Treforys sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, gan gynnal archwiliadau ar hap o lanweithdra yn y manau hyn:

- Yr Uned Arennol
- Ward F, Ailsefydlu ar ôl Strôc
- Ward H, Meddyginiaeth Gyffredinol

1.6 Nodir ein canfyddiadau yn adrannau canlynol yr adroddiad hwn. Rydym yn tynnu sylw at gryderau yn ogystal â meysydd i'w gwella ymhellach, ac yn argymhell camau gweithredu. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd lunio cynllun gwella er mwyn mynd i'r afael a'r meysydd allweddol sy'n achos pryder, a dylid ei gyflwyno i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

2. Canfyddiadau: Cryfderau, Meysydd i'w Gwella Ymhellach a'r Camau y mae angen eu cymryd

Amgylchedd Cyffredinol Ysbyty Treforys

2.1 Ystyriwyd bod safon glanweithdra amgylchedd cyffredinol yr ysbyty yn dderbyniol. Canfuwyd bod coridorau a manau cerdded cyhoeddus eraill yn glir, heb eitemau diangen ac amhriodol ynddynt.

2.2 Roedd arferion hylendid dwylo yn cael eu hybu trwy chwarae DVD yn y bwyty er mwyn codi ymwybyddiaeth y staff a'r cyhoedd. Mae hwn yn arfer sy'n werth ei nodi.

Yr Uned Arennol

Yr Amgylchedd

2.3 Canfuwyd bod safon y glanweithdra ar y ward yn dderbyniol, ond nodwyd bod nifer o faterion y mae bellach angen rhoi sylw iddynt. Gwelwyd enghreifftiau o arferion gwaith yr oedd yn werth eu canmol, a chyfeirir atynt isod.




- Gwelwyd bod yr awyrellau ar y ward yn fudr. Dylai pob aelod o'r staff sicrhau bod y rhain yn cael eu glanhau i safon dderbyniol.



- Roedd nifer o waliau wrth ochr y sinciau golchi dwylo clinigol wedi eu difrodi, ac mae angen rhoi sylw i hyn.



- Canfuwyd bod y sgertin wedi treulio'n wael mewn nifer o fannau, ac mae angen rhoi sylw i hyn.



- Roedd yr uned storio wedi rhydu'n ddrwg, gan achosi staenio drwg ar y llawr. Dylid cael uned arall yn ei lle gan na ellir ei glanhau'n effeithiol.

2.4 Roedd yn achos pryder i ni fod y bylchau rhwng y gwelyau yn yr uned yn annigonol, gan fod nifer o welyau yn agos i'w gilydd. Mae angen i'r Bwrdd lechyd ystyried y risg bosibl y mae hyn yn ei hachosi o ran rheoli heintiau, a dylid cynnal asesiad risg priodol.

2.5 Nid oedd digon o sinciau golchi dwylo clinigol ar gael ar gyfer y nifer o welyau ar y ward, ac nid yw hyn yn dderbyniol er mwyn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol. Dylid sicrhau bod mwy o sinciau golchi dwylo clinigol ar gael ar y ward drwyddi draw.

2.6 Gwelwyd bod gormod o bethau yn yr ystafell ddomestig. Nid oedd sinc golchi dwylo yno ychwaith, ac oherwydd hynny, mae'r staff yn gorfod gadael yr ystafell i olchi eu dwylo.

2.7 Roedd yn achos pryder i ni hefyd fod gweithdrefnau aseptig yn cael eu cynnal gan ddefnyddio byrddau tros welyau'r cleifion yn hytrach na throli triniaeth benodedig. Mae hyn yn annerbyniol. Dylai gweithdrefnau aseptig gael eu cynnal ar arwyneb gwaith penodol, naill ai troli neu hambwrdd triniaeth.



- Mae'r ward wedi buddsoddi mewn llenni tafladwy, ac mae hyn yn arfer y mae'n werth ei nodi.



- Archwiliwyd y comodau ar y ward, a gwelwyd eu bod i gyd yn lân ac yn barod i'w defnyddio. Mae'r ward wedi buddsoddi mewn tâp a roddir o amgylch y comôd i ddangos ei fod yn barod i'w ddefnyddio, ac mae'n ymddangos bod hyn yn gweithio'n dda.

Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog

2.8 Roedd y Ward yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol o ran trin a gwaredu eitemau miniog yn ddiogel, ond roedd nifer o bryderon ynglŷn â thrin dillad gwely a llieiniau a gwastraff yn benodol.



- Nid oedd gan y ward fan penodedig ar gyfer cadw dillad gwely a llieiniau glân, a gwelwyd eitemau mewn ystafell storio gyffredinol. Nid yw hyn yn dderbyniol. Dylid cadw dillad gwely a llieiniau glân ar wahân i eitemau eraill.



- Mae gan y ward ystafell gwaredu gwastraff, ond canfuwyd llawer iawn o wastraff a dillad gwely a llieiniau yn cael eu cadw ynddi. Dylai'r staff sicrhau bod y gwastraff a'r dillad gwely a'r llieiniau yn cael eu symud oddi yno'n brydlon.



- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn profi peth oedi o ran cael gwared ar wastraff clinigol yn brydlon oherwydd trafferthion â chontractwyr allanol. Cymerwyd camau'n ddi-oed yn ystod ein hymweliad i ddatrys y broblem. Fodd bynnag, mae angen i'r

Bwrdd Iechyd sicrhau bod gwastraff clinigol yn cael ei gloi'n ddiogel mewn manau cyhoeddus ac yr eir ag ef i ffwrdd yn brydlon.

Cyfarpar a Storfeydd

2.9 Gwelwyd bod y cyfarpar ar y ward yn lân yn gyffredinol, a'r offerynnau'n cael eu cadw'n ddiogel ac yn briodol, ond roedd rhai peiriannau dialysis yn cael eu cadw a oedd wedi eu staenio â gwaddod toddiant glanhau. Dylid sefydlu a chofnodi system lanhau gadarn ac eglur ar gyfer y sefydliad cyfan, fel bod pob aelod o'r staff yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am lanhau beth, a phryd.

Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff

2.10 Roedd gan y staff y siaradwyd â hwy yn ystod yr ymweliad wybodaeth dda am reoli heintiau yn gyffredinol. Gwelwyd bod arferion hylendid dwylo yn dderbyniol, a bod gan y staff wybodaeth dda ynglŷn â pha bryd y dylent olchi eu dwylo a pha bryd y dylent wisgo menig.

2.11 Fodd bynnag, amlygodd ein sgysiau gyda'r staff nad oedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar reoli heintiau yn ystod y 12 mis diwethaf. Dylai pob aelod o'r staff ddilyn hyfforddiant/diweddariadau ar reoli heintiau bob blwyddyn, a dylai hyfforddiant o'r fath gynnwys arferion hylendid dwylo ymarferol.

2.12 Roedd y staff hefyd yn teimlo bod ganddynt berthynas dda â'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau, ac y rhoddir cymorth priodol iddynt yn ystod achosion o heintiau.

2.13 Roedd diffyg arwyddion ar gyfer annog defnyddio gel alcohol o amgylch y ward. Dylid cynyddu ymwybyddiaeth y staff, cleifion ac ymwelwyr o hylendid dwylo, a dylid gosod posteri priodol o amgylch y ward.

Ward F, Y Ward Ailsefydlu ar ôl Strôc

Yr Amgylchedd

2.14 Canfuwyd nad oedd y glanweithdra ar y ward cystal ag y dylai fod, gyda llwch ar lefelau uchel.



- Roedd llawr yr ystafell ymolchi wedi ei staenio'n ddrwg.



- Canfuwyd eitemau ymolchi cymunedol ar y ward. Dylid eu symud oddi yno gan fod posibilrwydd iddynt gael eu halogi pe byddent yn cael eu defnyddio gan nifer o gleifion.



- Gwelwyd bod llwydni yn y gawod. Mae hyn yn annerbyniol, a dylai'r staff sicrhau ei bod yn cael ei glanhau i safon dderbyniol.



- Archwiliwyd y comodau ar y ward, a gwelwyd eu bod i gyd yn lân ac yn barod i'w defnyddio. Mae'r ward wedi buddsoddi mewn tâp a roddir o amgylch y comôd i ddangos ei fod yn barod i'w ddefnyddio, ac mae'n ymddangos bod hyn yn gweithio'n dda.

2.15 Nid oedd digon o sinciau golchi dwylo clinigol ar gael ar gyfer y nifer o welyau ar y ward, ac nid yw hyn yn dderbyniol er mwyn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol. Dylid sicrhau bod mwy o sinciau golchi dwylo clinigol ar gael ar y ward drwyddi draw.

2.16 Nid yw'r sinc golchi dwylo sydd wedi ei lleoli yn yr ystafell glinigol yn dderbyniol gan nad yw'n cydymffurfio â HTM 64. Dylai fod tapiau a weithredir â'r penelin, y pen-glin neu synhwyrdd ar bob sinc golchi dwylo clinigol. Dylai fod yn hawdd troi'r tapiau ymlaen a'u diffodd heb halogi'r dwylo.

2.17 Roedd nifer o eitemau glân yn cael eu cadw yn yr ystafell amlbwrpas eitemau budron. Mae hyn yn annerbyniol gan y gallai achosi risg bosibl o halogi.

2.18 Gwelwyd bod gormod o bethau yn yr ystafell ddomestig. Nid oedd sinc golchi dwylo yno ychwaith, ac oherwydd hynny, mae'r staff yn gorfod gadael yr ystafell i olchi eu dwylo.

Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog



Mae gan y ward ystafell gwaredu gwastraff, ond canfuwyd llawer iawn o wastraff a dillad gwely a llieiniau yn cael eu cadw ynddi. Dylai'r staff sicrhau bod y gwastraff a'r dillad gwely a'r llieiniau yn cael eu symud oddi yno'n brydlon.

Cyfarpar a Storfeydd

2.19 Gwelwyd bod y cyfarpar ar y ward yn lân yn gyffredinol, a'r offerynnau'n cael eu cadw'n ddiogel ac yn briodol, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth fod amserlen lanhau wedi ei sefydlu. Dylid sefydlu a chofnodi system lanhau gadarn ac eglur ar gyfer y sefydliad cyfan, fel bod y staff yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am lanhau beth, a phryd.



- Ceir ystafell gawod ar y ward nas defnyddir fel ystafell gawod mwyach, ac fe'i defnyddir i gadw standiau diferwyr. Mae hyn yn amhriodol. Os nad oes angen yr ystafell gawod mwyach, dylid symud y gawod oddi yno a neilltuo'r ystafell ar gyfer diben arall.

Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff

2.20 Roedd gan y staff y siaradwyd â hwy yn ystod yr ymweliad wybodaeth dda am reoli heintiau yn gyffredinol. Gwelwyd bod arferion hylendid dwylo yn dderbyniol, a bod gan y staff wybodaeth dda ynglŷn â pha bryd y dylent olchi eu dwylo a pha bryd y dylent wisgo menig.

2.21 Roedd y staff hefyd yn teimlo bod ganddynt berthynas dda â'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau, ac y rhoddir cymorth priodol iddynt yn ystod achosion o heintiau.

2.22 Fodd bynnag, amlygodd ein sgysiau gyda'r staff nad oedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar reoli heintiau yn ystod y 12 mis diwethaf. Dylai pob aelod o'r staff ddilyn hyfforddiant/diweddariadau ar reoli heintiau bob blwyddyn, a dylai hyfforddiant o'r fath gynnwys arferion hylendid dwylo ymarferol.

2.24 Canfuwyd nad oedd gel alcohol bob amser ar gael ar y pwynt gofal. Gall darparu cynhyrchion rhwbio dwylo â sail alcohol iddynt wrth ymyl gwelyau'r cleifion helpu i sicrhau cydymffurfiaid â gweithdrefnau hylendid dwylo. Gellid eu rhoi wrth droed y gwely neu ar ben cwpwrdd bach y cleifion.

Ward H, Llawdriniaeth Gyffredinol

Yr Amgylchedd

2.25 Canfuwyd bod safon y glanweithdra ar y ward yn dderbyniol yn gyffredinol, ond nodwyd bod nifer o faterion y mae bellach angen rhoi sylw iddynt.



- Mae'r biniau ar y ward wedi gwneud difrod drwg i'r llawr.



- Gwelwyd bod llwydni yn y gawod. Mae hyn yn annerbyniol, a dylai'r staff sicrhau ei bod yn cael ei glanhau i safon dderbyniol.



- Archwiliwyd y comodau ar y ward, a gwelwyd eu bod i gyd yn lân ac yn barod i'w defnyddio. Mae'r ward wedi buddsoddi mewn tâp a roddir o amgylch y comôd i ddangos ei fod yn barod i'w ddefnyddio, ac mae'n ymddangos bod hyn yn gweithio'n dda.

2.26 Roedd nifer o eitemau glân yn cael eu cadw yn yr ystafell amlbwrpas eitemau budron. Mae hyn yn annerbyniol gan y gallai achosi risg bosibl o halogi.

2.27 Nid oedd digon o sinciau golchi dwylo clinigol ar gael ar gyfer y nifer o welyau ar y ward, ac nid yw hyn yn dderbyniol er mwyn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol. Dylid sicrhau bod mwy o sinciau golchi dwylo clinigol ar gael ar y ward drwyddi draw.

2.28 Nid yw'r sinc golchi dwylo sydd wedi ei lleoli yn yr ystafell glinigol yn dderbyniol gan nad yw'n cydymffurfio â HTM 64. Dylai fod tapiau a weithredir â'r penelin, y pen-glin neu synhwyrdd ar bob sinc golchi dwylo clinigol. Dylai fod yn hawdd troi'r tapiau ymlaen a'u diffodd heb halogi'r dwylo.

2.29 Gwelwyd bod gormod o bethau yn yr ystafell ddomestig. Nid oedd sinc golchi dwylo yno ychwaith, ac oherwydd hynny, mae'r staff yn gorfod gadael yr ystafell i olchi eu dwylo.

Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog



- Roedd y ward yn defnyddio biniau eitemau miniog fel cynwysyddion storio. Mae hyn yn ddefnydd amhriodol o gynwysyddion eitemau miniog, a dylid defnyddio cynwysyddion storio priodol.



- Mae'r Bwrdd lechyd wedi bod yn profi peth oedi o ran cael gwared ar wastraff clinigol yn brydlon oherwydd trafferthion â chontractwyr allanol. Cymerwyd camau'n ddi-oed yn ystod ein hymweliad i ddatrys y broblem. Fodd bynnag, mae angen i'r

Bwrdd lechyd sicrhau bod gwastraff clinigol yn cael ei gloi'n ddiogel mewn manau cyhoeddus ac yr eir ag ef i ffwrdd yn brydlon.

2.30 Mae gan y ward ystafell gwaredu gwastraff, ond canfuwyd llawer iawn o wastraff a dillad gwely a llieiniau yn cael eu cadw ynddi. Dylai'r staff sicrhau bod y gwastraff a'r dillad gwely a'r llieiniau yn cael eu symud oddi yno'n brydlon.

Cyfarpar a Storfeydd

2.31 Gwelwyd bod y cyfarpar ar y ward yn lân yn gyffredinol, a'r offerynnau'n cael eu cadw'n ddiogel ac yn briodol. Fodd bynnag, gwelwyd bod llwch ar y troli dadebru. Canfuwyd bod trefn lanhau gadarn gan nyrsys wedi ei sefydlu ar y ward, a gellid defnyddio hon fel system lanhau eglur a chofnodedig ar gyfer y sefydliad cyfan, fel bod y staff yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am lanhau beth, a phryd.

Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff

2.32 Roedd gan y staff y siaradwyd â hwy yn ystod yr ymweliad wybodaeth dda am reoli heintiau yn gyffredinol. Gwelwyd bod arferion hylendid dwylo yn dderbyniol, a bod gan y staff wybodaeth dda ynglŷn â pha bryd y dylent olchi eu dwylo a pha bryd y dylent wisgo menig.

2.33 Roedd y staff hefyd yn teimlo bod ganddynt berthynas dda â'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau, ac y rhoddir cymorth priodol iddynt yn ystod achosion o heintiau.

2.34 Amlygodd ein sgysiau gyda'r staff nad oedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar reoli heintiau yn ystod y 12 mis diwethaf. Dylai pob aelod o'r staff ddilyn hyfforddiant/diweddariadau ar reoli heintiau bob blwyddyn, a dylai hyfforddiant o'r fath gynnwys arferion hylendid dwylo ymarferol.

2.35 Canfuwyd nad oedd gel alcohol bob amser ar gael ar y pwynt gofal. Gall darparu cynhyrchion rhwbio dwylo â sail alcohol iddynt wrth ymyl gwelyau'r cleifion helpu i sicrhau cydymffurfiad â gweithdrefnau hylendid dwylo. Gellid eu rhoi wrth droed y gwely neu ar ben cwpwrdd bach y cleifion.

Ward S, Yr Uned Derbyniadau Meddygol

Cegin y Ward

2.36 Ymwelwyd â Ward S ym mis Hydref 2007 yn rhan o archwiliad dirybudd ar hap o lanweithdra, ac amlygwyd pryderon o ran cegin y ward, gan y canfuwyd ei bod yn orlawn, yn aflêr ac yn llychlyd, a bod eitemau yn cael eu cadw ynddi'n amhriodol. Ers ein hymweliad blaenorol, rydym yn falch o ddweud bod y cegin wedi ei huwchraddio â gosodiadau a ffitiadau newydd.



- Roedd y cegin wedi ei threfnu'n dda ac nid oedd eitemau amhriodol yn cael eu cadw ynddi.